**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**163 – Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 6 Gorffennaf 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Nac oes |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 23 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Cynigir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972; adran 8(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ("Deddf 2018"); ac adrannau 12, 14 a 41(1) a pharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgorffori i'r gyfraith ddomestig y darpariaethau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn y Cytundeb Ymadael â'r UE, Cytundeb Gwahanu yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop, a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir, nad ydynt yn dod o dan ddeddfwriaeth bresennol yr UE ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau i'r fframweithiau domestig ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gwasanaethau, fel a ganlyn: datgymhwyso rhai hawliau sy'n uniongyrchol effeithiol yng nghytuniadau'r UE sy'n ymwneud â Chydnabod Cymwysterau Proffesiynol a dirymu tri darn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a fyddai fel arall yn cael eu cadw mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adrannau 4 a 3 o Ddeddf 2018 yn y drefn honno; gwneud cywiriadau i ddeddfwriaeth cydnabod cymwysterau proffesiynol yng nghyd-destun Ymadael â'r UE; newid rhai cyfeiriadau at y 'diwrnod ymadael' i gyfrif am y Cyfnod Pontio mewn amryw ddarnau o ddeddfwriaeth ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gwasanaethau yng nghyd-destun Ymadael â'r UE; a chywiro gwall trosi yn Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 8 Gorffennaf 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, nodir bod y datganiad yn cyfeirio at yr offeryn fel Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020, yn hytrach na Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Diwygio a Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 (pwyslais wedi'i ychwanegu).

Mae'r datganiad hefyd yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn dau achos, yn hytrach na Senedd Cymru.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.